

CYFARFOD Y CYNGOR 23 HYDREF 2019

DIWYGIO'R RHYBUDD O GYNNIG SYDD WEDI'I AMLINELLU YN EITEM 10(A) O AGENDA'R CYNGOR

Yn unol â Rheol Weithdrefn 10.4.1 o Ran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor, derbyniwyd y diwygiadau canlynol yn enwau'r Cynghorwyr P Jarman (Cynigydd) a G Davies (Eilydd), E. Webster, J.Davies, J.Cullwick, J.Williams, A.Cox, H.Fychan, D.Grehan, E.Griffiths, K.Morgan, S.Rees Owen, M.Weaver, S.Evans, A. Chapman, L. Jones ac E.Stephens

I nodi Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd ar 10 Hydref, mae'r Awdurdod yma'n rhoi ei gefnogaeth i ymgyrch atal hunanladdiad #IPledge2Talk ac yn ymrwymo i weithio i gefnogi iechyd meddwl cadarnhaol mewn cymunedau ledled Rhondda Cynon Taf, mewn ysgolion, cymdogaethau a gweithleoedd lleol [\[Ychwanegu - ac yn parhau i gefnogi'r Samaritans yn y gwaith yma\]](#)

Fel Awdurdod Lleol, rydyn ni'n cydnabod ein rôl hanfodol wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r mater yma, fel y gwelwyd mewn Rhybudd o Gynnig blaenorol a oedd, nid yn unig yn ailddatgan cefnogaeth y Cyngor hwn i ymgyrch 'Beth am Siarad â Fi?' 2 Llywodraeth Cymru, ond hefyd yn ceisio ystyried ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ar eu gyfer iechyd meddwl o fewn yr Awdurdod ac ym mhob rhan o'r Fwrdeistref Sirol.

Dylai annog lles meddyliol fod yn flaenoriaeth ar draws holl feysydd cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys tai, cymunedau diogel a chynllunio. Yn ogystal, bydd yr addewid yma hefyd yn cwmpasu'r gefnogaeth y mae'r Cyngor yma'n ei darparu i Gymuned y Lluedd Arfog, sydd, yn anffodus, yn gweld cyfraddau anghymesur o uchel o hunanladdiad ymhlith ein cyn-filwyr yn benodol.

Mae'r Aelodau'n galw ar ein Hyrwyddwr Iechyd Meddwl i barhau i godi proffil ac ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y mater yma. [\[Ychwanegu - Bod y cynnig hwn yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Lles er mwyn craffu ar yr hyn a wnaed gan yr Hyrwyddwr Iechyd Meddwl yn dilyn cynnig tebyg a gafodd ei gyfeirio ato gan y Cyngor Llawn ym mis Hydref 2018.\]](#)

Bydd y cynnig wedi'i ddiwygio yn darllen:

I nodi Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd ar 10 Hydref, mae'r Awdurdod yma'n rhoi ei gefnogaeth i ymgyrch atal hunanladdiad #IPledge2Talk ac yn ymrwymo i weithio i gefnogi iechyd meddwl cadarnhaol mewn cymunedau ledled Rhondda Cynon Taf, mewn ysgolion, cymdogaethau a gweithleoedd lleol, ac yn parhau i gefnogi'r Samaritans yn y gwaith yma.

Fel Awdurdod Lleol, rydyn ni'n cydnabod ein rôl hanfodol wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r mater yma, fel y gwelwyd mewn Rhybudd o Gynnig blaenorol a oedd, nid yn unig yn ailddatgan cefnogaeth y Cyngor hwn i ymgyrch 'Beth am Siarad â Fi?' 2 Llywodraeth Cymru, ond hefyd yn ceisio ystyried ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ar eu gyfer iechyd meddwl o fewn yr Awdurdod ac ym mhob rhan o'r Fwrdeistref Sirol.

Dylai annog lles meddyliol fod yn flaenoriaeth ar draws holl feysydd cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys tai, cymunedau diogel a chynllunio. Yn ogystal, bydd yr addewid yma hefyd yn cwmpasu'r gefnogaeth y mae'r Cyngor yma'n ei darparu i Gymuned y Lluedd Arfog, sydd, yn anffodus, yn gweld cyfraddau anghymesur o uchel o hunanladdiad ymhlith ein cyn-filwyr yn benodol.

Mae'r Aelodau'n galw ar ein Hyrwyddwr Iechyd Meddwl i barhau i godi proffil ac ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y mater yma. Bod y cynnig hwn yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Lles er mwyn craffu ar yr hyn a wnaed gan yr Hyrwyddwr Iechyd Meddwl yn dilyn cynnig tebyg a gafodd ei gyfeirio ato gan y Cyngor Llawn ym mis Hydref 2018.